Comisiwn
Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

equalityhumanrights.com

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Cynnwys

2 Amdanom ni
4 Pam rydym ni yma
8 Ein pwerau
10 Ble rydym yn gweithio



‘Nid afon o waed, ond ton o obaith’: ein Cadeirydd, Trevor Phillips, yn siarad am amlddiwylliannaeth fodern ddeugain mlynedd ar ôl araith enwog Enoch Powell, ‘Rivers of Blood’.

Amdanom ni

Yn y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, rydym yn credu y dylai pawb gael eu trin yn deg a chydag urddas. Yn anffodus, nid yw hynny'n digwydd bob amser. Yn ôl arolwg a gynhaliwyd ar ein cyfer yn 2007, mae achosion o wahaniaethu ac anfantais yn gyffredin ar draws Prydain o hyd. Nid yw pob un ohonom yn cael cyfleoedd cyfartal mewn bywyd, ac mae rhai mathau o wahaniaethu'n gymhleth ac wedi'u gwreiddio'n ddwfn. Weithiau, bydd rhai'n dewis anwybyddu hawliau pobl eraill hyd yn oed pan fo hynny'n groes i'r gyfraith. Dyna pam y mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn bod.

Ein nod yw helpu Prydain i ddatblygu mewn modd sy'n golygu bod pawb yn gwerthfawrogi'r delfrydau y mae'r rhan fwyaf ohonom yn eu trysori – **parch, rhyddid, cydraddoldeb, urddas a thegwch**. Yn ogystal, y delfrydau hyn yw'r egwyddorion craidd sy'n sail i 'hawliau dynol' – yr hawliau a'r rhyddid sylfaenol sy'n perthyn i bob un ohonom fel bodau dynol.

Lansiwyd y Comisiwn ar 1 Hydref 2007, a'n rôl yw:

- sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'u hawliau a sut i'w defnyddio
- gweithio gyda chyflogwyr, darparwyr gwasanaeth a sefydliadau i'w helpu i ddatblygu arfer gorau
- gweithio gyda gwneuthurwyr polisi, cyfreithwyr a'r Llywodraeth i sicrhau bod polisi cymdeithasol a'r gyfraith yn hyrwyddo cydraddoldeb
- defnyddio ein pwerau i orfodi'r cyfreithiau sydd eisoes mewn grym.



Mae ein hymgynghorwyr arbenigol sydd ar ben draw ein llinellau cymorth wrth law i roi gwybodaeth ac arweiniad i chi ynghylch eich hawliau. Mae gennym linellau cymorth ar wahân ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban.

Pam rydym ni yma

Fel un Comisiwn, gallwn fod yn un ffynhonnell o wybodaeth a chyngor, a gallwn fynd i'r afael â gwahaniaethu ar fwy nag un lefel (mae llawer o bobl yn dioddef mwy nag un math o wahaniaethu). Rydym yn cyfuno gwaith y tri chomisiwn cydraddoldeb blaenorol, ac mae gennym gyfrifoldebau newydd hefyd. Golyga hynny ein bod yn gallu bod yn gorff pwerus i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar ran grwpiau nad oeddent yn cael eu cynrychioli'n ddigonol o'r blaen, megis pobl hŷn.

Yn y wlad hon, mae gennym gyfreithiau sy'n ein hamddiffyn rhag achosion o wahaniaethu a thriniaeth anghyfartal ac sy'n diogelu ein hawliau o safbwynt:

- Oedran
- Anabledd
- Rhyw, gan gynnwys achosion o ailbennu rhyw
- Hil
- Crefydd a chred
- Tueddfryd rhywiol.

Yn ogystal, mae gennym ddeddfwriaeth hawliau dynol sy'n sicrhau hawliau a rhyddid sylfaenol i bawb.

> **"Ni fydd fy neiaint a'm nithoedd bach yn cofio amser pan nad oedd modd cael priodas hoyw"**
>
> Anjum Mouj, a gafodd ei chyfweld ar gyfer ein hymgyrch 'Cyfartal a Gwahanol'

Marcus Ramshaw, offeiriad

Michael Etkind, un a fu fyw trwy'r Holocost

Alison Lapper, arlunydd

Tanni Grey-Thompson, athletwraig

Anjum Mouj a Dipti Marjaria

Gok Wan, cyflwynydd teledu

YouTube™

Ym mis Ebrill 2008, lansiwyd sianel y Comisiwn ar YouTube. Mae ein hymgyrch 'Cyfartal a Gwahanol' yn cynnwys fideos o unigolion sy'n hanu o bob math o gefndir. Ewch i www.youtube.com/equalityhumanrights

Efallai bod yr hawliau sydd gennych yn berthnasol i wahanol gyd-destunau:

- gwaith
- addysg a hyfforddiant
- y gwasanaethau yr ydych yn eu cael, megis gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, trafnidiaeth neu dai
- y gwasanaethau masnachol yr ydych yn eu prynu, er enghraifft mewn siopau a chanolfannau hamdden
- y modd yr ydych yn cael eich trin gan sefydliadau swyddogol.

Bydd y gyfraith ychydig yn wahanol, yn dibynnu ar y math o wahaniaethu neu'r math o driniaeth annheg y gallech chi fod wedi'u dioddef, a gall fod yn eithaf cymhleth. Gallwn eich helpu i ddarganfod beth yw eich hawliau, a gallwn roi cyngor i chi ynghylch beth y gallwch chi ei wneud nesaf.

> **"Mae hwn yn achos gwirioneddol bwysig, a bydd yn cael effaith amlwg ar fywydau miliynau o ofalwyr"**
> John Wadham, Cyfarwyddwr ein Grŵp Cyfreithiol,
> yn cyfeirio at achos Sharon Coleman

“Roedd gofyn bod yn ddewr iawn i ymladd yr achos hwn, ond ni ddylai neb orfod dewis rhwng gofalu am berthnasau anabl neu swydd.”

Aeth Sharon Coleman â’i chyflogwr i’r llys ar ôl iddi gael ei phoeni ac ar ôl i’w chyflogwr wrthod gadael iddi weithio oriau hyblyg er mwyn ei galluogi i ofalu am ei mab anabl, Oliver. Buom yn cefnogi ei hachos a fydd yn golygu bod modd i’r gyfraith amddiffyn gofalwyr i raddau mwy helaeth.

Ein pwerau

Gorfodi'r gyfraith

Mae gennym bwerau helaeth i orfodi cyfraith cydraddoldeb. Rydym yn cynnig cyngor a gwybodaeth trwy gyfrwng ein llinellau cymorth, ein gwefan a'n cyhoeddiadau.

Gallwn ymgymryd ag achosion cyfreithiol ar ran unigolion, a gallwn weithredu'n gyfreithiol i atal achosion o dorri'r Ddeddf Hawliau Dynol. Fodd bynnag, mae nifer yr achosion y gallwn ni ymgymryd â nhw bob blwyddyn yn gyfyngedig, a byddwn yn canolbwyntio felly ar yr achosion hynny sy'n rhoi prawf ar y gyfraith. Yn ogystal, rydym yn rhoi arian i sefydliadau sy'n darparu cyngor cyfreithiol ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae ein rôl yn cynnwys sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol o safbwynt mynd i'r afael ag achosion o wahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Yn ogystal, mae gennym y pŵer i lansio ymchwiliadau swyddogol a ffurfiol.

Dylanwadu ar bolisi cyhoeddus

Rydym yn gweithio i bwyso ar y Llywodraeth i ddatblygu deddfwriaeth ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol, sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ac sy'n rhoi cyfle i bawb gyrraedd eu potensial llawn.

Byddwn yn defnyddio ein dylanwad a'n hawdurdod i sicrhau bod polisi cymdeithasol yn ystyried pwysigrwydd cydraddoldeb a hawliau dynol, a sicrhau bod y materion hyn yn parhau i fod ar frig

agenda'r Llywodraeth. Trwy gomisiynu, asesu a chyhoeddi gwaith ymchwil, byddwn yn tyfu'n ffynhonnell uchel ei pharch o wybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth am gyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol ym Mhrydain.

Yn ogystal, byddwn yn llunio adroddiad bob tair blynedd a gyflwynir i'r Senedd. Bydd yr adroddiad yn asesu cydraddoldeb ym Mhrydain ac yn asesu'r cynnydd a wneir.

Hyrwyddo arfer da

Rydym yn cydweithio â chyflogwyr a sefydliadau/mudiadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i leihau achosion o wahaniaethu, datblygu arfer da a hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. Rydym yn defnyddio ein gwaith cyfathrebu a'n hymgyrchoedd i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a phwyso am newid a chyfiawnder cymdeithasol.

Rydym yn helpu sefydliadau eraill trwy ein rhaglen grantiau, sy'n ein galluogi i roi cymorth ariannol i brosiectau lleol a chenedlaethol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws Prydain.

> **"Mae gan bob un ohonom hawl i ddisgwyl cael ein trin yn deg, gan bobl na fyddant yn ein hecsbloetio, ac mewn modd sy'n parchu ein hurddas"**
>
> Trevor Phillips

Ble rydym yn gweithio

Mae ein gwaith yn ymestyn ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae gennym swyddfeydd yng Nghaerdydd, Caeredin, Glasgow, Llundain a Manceinion yn ogystal â phresenoldeb rhanbarthol ym Mangor, Birmingham, Bryste, Caergrawnt, Guildford, Leeds, Newcastle a Nottingham.

Ceir manylion ynghylch sut i gysylltu â ni ar glawr cefn y cyhoeddiad hwn.

Os ydych yn byw yng **Nghymru** neu yn **yr Alban**, gallwch fanteisio ar y swyddfeydd sydd gennym yno; mae gan y rhain gyfrifoldebau arbennig er mwyn medru ystyried y materion penodol sy'n effeithio arnoch chi.

Cymru

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru wedi'i leoli yng Nghaerdydd a Bangor, ac mae wrth law i sicrhau bod y Comisiwn yn ystyried anghenion Cymru. Mae gennym gomisiynydd a phwyllgor yno i oruchwylio ein gwaith a chydweithio'n agos â'r Cynulliad Cenedlaethol a sefydliadau eraill sydd yng Nghymru.

Yr Alban

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn yr Alban wrth law i sicrhau bod nodau, gweledigaeth a strategaeth y Comisiwn yn ystyried anghenion yr Alban. Mae'r tîm wedi'i leoli yng Nghaeredin a Glasgow. Mae gennym gomisiynydd a phwyllgor yn yr Alban i oruchwylio ein gwaith a chydweithio'n agos â Senedd yr Alban, Comisiwn yr Alban dros Hawliau Dynol a sefydliadau eraill a geir yno.

Cafodd £10 miliwn eu rhoi gennym yn 2008 i sefydliadau ar lawr gwlad sy'n gweithio ar draws pob agwedd ar gydraddoldeb. Roedd rhwydwaith APORENet ymhlith y sawl a gafodd arian, a nod prosiect y rhwydwaith yw hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol trwy gyfrwng celf.

“Y nod o greu cymdeithas amrywiol a chyfartal yw’r her fwyaf sy’n wynebu Prydain heddiw. Gyda’n gilydd gallwn droi’r nod yn realiti”

Nicola Brewer, Prif Weithredwr,
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Rydym yn gorff cyhoeddus anadrannol sy'n annibynnol ar y Llywodraeth ac a gafodd ei sefydlu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006.

© Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Gorffennaf 2008

Ffotograffau trwy garedigrwydd Pauline Neild, Bob Hopley, APORENet ac Airbus UK.
ISBN 978 1 84206 059 9

Cysylltu â ni

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth neu gysylltu â ni trwy droi at ein gwefan:

www.equalityhumanrights.com

neu drwy ffonio un o'n llinellau cymorth.

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat gwahanol a/neu iaith wahanol, ffoniwch y llinell gymorth berthnasol i drafod eich anghenion. Yn ogystal, gellir lawrlwytho ac archebu pob cyhoeddiad mewn amryw o fformatau o'n gwefan.

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – Cymru
Ffôn: 08456 048 810
Ffôn testun: 08456 048 820
Ffacs: 08456 048 830
9am–5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ond 9am–8pm ar ddydd Mercher

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – Lloegr
Ffôn: 08456 046 610
Ffôn testun: 08456 046 620
Ffacs: 08456 046 630
9am–5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ond 9am–8pm ar ddydd Mercher

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – Yr Alban
Ffôn: 08456 045 510
Ffôn testun: 08456 045 520
Ffacs: 08456 045 530
9am–5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ond 9am–8pm ar ddydd Mercher

POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE · YN GADARN O BLAID POBL ANABL